# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Hydref 2017

Amser: 09.30 - 14.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4412

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Jayne Bryant AC<br>Angela Burns AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | Karin Orman, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol<br>Dr Alison Stroud, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith<br>Beth Bowen, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith<br>Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru<br>Steven Ford, Fforwm Gofal Cymru<br>David Francis, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |

| | |
|---|---|
| | John Palmer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br>Kim Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br>Victoria Gimson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Lisa Lane, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Claire Aston, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Dr Chineze Ivenso, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Sarah Isaac, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Sue Stephens, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Staff y Pwyllgor: | Claire Morris (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Amy Clifton (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriad gan Dawn Bowden AC a Julie Morgan AC.

## 2 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - sesiwn dystiolaeth 9 - Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol a Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol a Choleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd.

## 3 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - sesiwn dystiolaeth 10 - Fforwm Gofal Cymru

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Fforwm Gofal Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc – adfywio'r ymchwiliad

5.1 Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaethau ychwanegol ar ei ymchwiliad i weithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc a chytunodd i wahodd rhanddeiliaid i sesiynau casglu tystiolaeth yn ystod tymor y gwanwyn.

## 6 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal – sesiwn dystiolaeth 11 – Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

6.2 Cytunodd David Francis i roi dadansoddiad i'r Pwyllgor o nifer y cartrefi gofal yng Nghymru yr oedd AGGCC wedi'u cau oherwydd eu bod yn darparu gwasanaethau gwael.

## 7 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal – sesiwn dystiolaeth 12 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## 8 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal – sesiwn dystiolaeth 13 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

8.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

8.2 Cytunodd Dr Chineze Ivenso i roi i'r Pwyllgor ganfyddiadau archwiliadau 2017, hyd yma, i'r defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig gyda chleifion â dementia sy'n byw mewn cartrefi gofal ym mwrdeistref Casnewydd.

8.3 Cytunodd y ddau Fwrdd Iechyd i ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi pa ddata ar ragnodi meddyginiaethau gwrthseicotig y dylid eu casglu yn genedlaethol, yn eu barn hwy, er mwyn galluogi byrddau iechyd i feincnodi â'i gilydd ac â safonau NICE.

## 9 Papurau i'w nodi

### 9.1 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - gwybodaeth ychwanegol gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru

9.1a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru mewn cysylltiad â'r ymchwiliad i'r defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal.

### 9.2 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynglŷn â'r ymchwiliad y mae'r Pwyllgor ar fin ei gynnal i faterion yn ymwneud ag atal hunanladdiad

9.2a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynglŷn â'r ymchwiliad y mae'r Pwyllgor ar fin ei gynnal i faterion yn ymwneud ag atal hunanladdiad.

### 9.3 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynglŷn â Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014

9.3a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 11 Defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal - trafod y dystiolaeth

11.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod eitemau 2, 3, 6, 7 ac 8 o'r cyfarfod.